

UNED : LLETYA GWARTHEG

CYFLWYNIAD

Mae llety wedi ei gynllunio'n dda yn hanfodol er mwyn :

- Cael y cynnyrch gorau gan yr anifeiliaid
- Sicrhau hwsmonaeth well
- Lleihau'r bygythiad clefyd yn dechrau ac ymledu

Mae'n cynrychioli buddsoddiad mawr a dealltwriaeth dda o'r anghenion ac opsiynau sydd ar gael. Bydd yn sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario ar adeiladau newydd yn werth y gost neu fod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r adeiladau presennol.

GOFYNION

Er lles yr anifeiliaid a'r ffermwr, mae angen sicrhau :

- Lles yr anifail (dylid o leiaf weithredu safonau codau lles a sicrwydd) –
 - digon o ofod,
 - rhyddid o fwlio,
 - amddiffyniad rhag y tywydd,
 - gwely glân,
 - awyriad da,
 - mynediad i borthiant a dŵr
- Diogelwch y ffermwr a rheolaeth rwydd –
 - mynediad dynol hawdd i'r anifeiliaid (ac i ddianc),
 - golau er mwyn gwneud archwiliad yn hawdd,
 - cyfleusterau trafod diogel,
 - mynediad i beiriannau i fwydo a glanhau.

NODWEDDION

System letya – rhaid iddi fod :

- yn addas ar gyfer y fferm a'r system
- yn syml a chost-effeithiol gan gynnwys anghenion llafur

- addasadwy a phriodol ar gyfer ehangu

Lleoliad yr adeilad

- Safle heulog gyda symudiad aer digonol ond yn osgoi drafft
- Yn agos at ffyrdd a gwasanaethau
- Allan o gyrraedd cyrsiau dŵr â storfa slyri/tail/dom ac o bosibl darpariaeth ar gyfer dŵr ffo

Adeiladwaith

Fel arfer, defnyddir fframiau dur ar gyfer adeiladau gyda waliau ochr wedi eu gwneud o goncrit, blociau neu bren i uchder yr anifail, gyda waliau astellog neu ddalenni hyd at y bondo.

Math o Lety

- Â tho neu heb do? Ar wahân i ardaloedd sy'n cael glawiad blynyddol isel iawn, mae adeiladau a tho yn angenrheidiol ar gyfer cysur a lles anifail, yn ogystal â chadw rheolaeth dros y posibilrwydd o lygredd o tail/dom neu slyri. Cyn belled â bod yr anifeiliaid yn cael eu cysgodi rhag y prifwyntoedd gan waliau solet, gellir eu lletya mewn iardiau agored lle bydd llai o berygl cael niwmonia nag mewn adeiladau gydag awyriad gwael.
- 'Cwrelau' sglodion pren - mae sglodion pren yn rhoi dewis arall defnyddiol iawn i welya a lletya confensiynol

Mewn adeiladau confensiynol gellir dewis nifer o opsiynau :

- Llawr delltog
- Cuddyglau - mae gwartheg eidion neu heffrod amnewid yn cael eu lletya yn aml mewn cuddyglau er mwyn arbed ar gostau deunydd gwely. Mae'r systemau cuddyglau a'r lloriau delltog yn golygu cynhyrchu slyri. Felly bydd angen ei storio - er y gallai'r gofod o dan yr estyll fel arfer yn gweithredu fel storfa yn y system astellog.

Iardiau neu lociau â gwellt (gydag ardaloedd porthi yn aml yn cael eu carthu neu eu crafu allan yn rheolaidd) - mae'r mwyafrif o wartheg eidion yn cael eu cadw mewn llociau neu iardiau â gwellt. Fel arfer, mae'r gwellt grawnfwyd a ddefnyddir, ond gellir defnyddio

sglodion pren, blawd llif, gwastraff papur neu ddeunyddiau eraill ac isgynhyrchion sydd yn rhad os ydyn nhw ar gael yn lleol.

Llawr

Rhaid i'r llawr fod yn wrth-lithr er mwyn osgoi niwed a straen i'r anifeiliaid, yn enwedig yn yr ardaloedd porthi neu'r ardaloedd sy'n cael eu cadw'n glir o ddeunydd gwely.

Iechyd a lles - niwmonia yw'r broblem iechyd sengl fwyaf sy'n effeithio ar wartheg dan do, ond gall unrhyw glefyd heintus a pharasitiaid fod yn bryder mawr, yn ogystal â bwlio ac unrhyw straen ddianghenraid.

Gellir lleihau'r problemau hyn drwy dalu sylw i fanylion :

- Awyriad - dyma'r elfen bwysicaf mewn lletya er mwyn sicrhau perfformiad da. Yr elfennau allweddol yw :
 - Digonedd o ofod aer yn yr adeilad
 - Crib agored (yn cael ei godi ar ei hyd gyda chap neu'n hollol agored) er mwyn caniatáu effaith 'simnai' i'r hen aer ddianc, ac osgoi llwch
 - Cyn lleied o lwch o wellt a phorthiant â phosibl

	Gofod aer (m³)	Agoriad Crib (m²/anifail)
Llai na 90kg	10	0.05
90-150kg	13	0.08
Yn fwy na 150kg	15	0.08

Mae pelenni mwg (ar gael gan 'fasnachwyr adeiladu') yn dangos pa mor gyflym mae hen aer yn diflannu ac os oes yna 'fannau poeth' o awyriad gwael.

- Maint grŵp – mae grwpiau llai na 40 anifail (20 tarw) wedi eu cydweddu, yn golygu llai o fwlio a gwell perfformiad anifail - gyda sylw penodol i:
 - Faint neu oed yr anifeiliaid
 - Rhyw
 - Cyrn a di-gyrn

- Tarddiad - osgoi cymysgu grwpiau yn ddiangen, yn enwedig teirw
- Rheoli heintiau - mae parasitiaid, fel llau sy'n sugno neu gnoi, yn gwylltio anifeiliaid ac yn achosi iddyn nhw grafu a rhwbio. Mae llau yn goroesi'n dda yng nghot gaeaf yr anifail, ac er nad oes effeithiau amlwg ar gyflwr a chyfradd tyfiant y gwartheg, mae'n effeithio ar ymddangosiad y gwartheg yn ogystal â gwerth eu crwyn. Dylid rheoli parasitiaid allanol yn y llety a / neu yn ystod y cyfnod lletya yn y cynllun iechyd a threfn rheoli.
- Cwarantîn - yn ddelfrydol, dylai'r adeiladau gynnwys ardal gwarantîn, naill ai adeilad bychan ar wahân neu ran o'r prif adeilad, lle nad yw'r anifeiliaid yn rhannu'r un llawr na gofod aer. Gall unrhyw anifail sydd wedi ei brynu i mewn ac sy'n dangos arwyddion o haint gael ei ynysu er mwyn sicrhau bioddiogelwch.

Porthiant a dŵr

- Storfa borthiant addas a digonol - er mwyn lleihau gwastraff, ar gyfer ffresni ac ansawdd porthiant ac i ddileu fermin
- Gofod porthi addas – yn cynnwys ardal didolborthi ar gyfer lloi mewn systemau eidion sugno

Pwysau Byw (kg)	Hyd 'wyneb' y porthiant (m)
Hyd at 250kg	0.4m
250-450kg	0.5m
Dros 450kg	0.6m

- Lleiafswm gwastraff porthiant – dyluniad rhwystr a rhwystr porthiant
- Dŵr glân diderfyn

Diogelwch y trafodwr - rhaid i'r adeilad fod yn ddiogel i'r trafodwr wrth borthi, osod gwely a gwirio'r stoc yn ogystal â thrafod a llwytho anifeiliaid.

- Mynediad - yn ddelfrydol, dylai'r trafodwr fynd i mewn i'r llociau neu ardaloedd gorwedd a phorthi cyn lleied â phosibl. Dylai'r adeilad

- ganiatáu porthi, a chymaint o wellt â phosibl o'r tu allan i'r lloc
- wedi ei gynllunio'n dda â digon o olau, er mwyn medru gweld y stoc yn hawdd
- Cyfleusterau trafod - dylid symud, ffrwyno a thrafod yr anifeiliaid heb straen na niwed i'r anifeiliaid na'r trafodwyr
- Cyfleusterau llwytho - mae cyfleusterau llwytho sy'n gadael i gerbydau barcio a llwytho, ac arwain anifeiliaid heb niwed na straen yn cwblhau anghenion adeilad addas

CRYNODEB

- Cofiwch am ofynion sylfaenol yr anifeiliaid - gofod digonol, rhyddid oddi wrth fwlio, diogelwch rhag y tywydd, gwely glân, awyriad da, mynediad i borthiant a dŵr
- Peidiwch ag anghofio diogelwch a rheolaeth rwydd y ffermwr - mynediad dynol hawdd i'r anifeiliaid (ac i ddianc), golau, cyfleusterau trafod diogel a mynediad i beiriannau ar gyfer porthi a glanhau.
- Rhaid i'r adeilad fod yn addas ar gyfer y fferm a'r system, yn syml a chost effeithiol o ran anghenion llafur, hawdd ei addasu ac yn addas ar gyfer ehangu
- Iechyd a lles ydi'r brif flaenoriaeth - niwmonia yw'r broblem sengl fwyaf sy'n effeithio ar wartheg dan do, ond gall unrhyw glefyd heintus a pharasitiaid fod yn broblem fawr yn ogystal â bwlio, ac unrhyw straen diangen
- Maint y grŵp – grwpiau wedi eu cydweddu – maint neu oed yr anifeiliaid, rhyw, cynn neu di-gynn a tharddiad
- Cwarantîn – yn ddelfrydol, dylai'r adeiladau feddu ar ardal cwarantîn
- Porthi a dyfrhau – storfa borthiant addas a digonol, a phorthi addas

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2009) EBLEX Beef BRP Manual 3 – Improving Cattle Handling for Better Returns

EBLEX (2010) Beef Briefing – 10/08 – Putting the priority on bedding management

Cyswllt Fferm (2010) Ventilation for Pneumonia control March 2010

HSE (2006) Handling and Housing Cattle Agriculture Information Sheet No 35

Ymarfer - EBLEX Beef BRP Manual 6 – Better Housing – Spot the faults – p12 OR as per sheep building Farmers Weekly Dec 31 2010 p40